

COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU

TELERAU AC AMODAU'R ARCHEB BRYNU

1. Diffiniadau

Mae "Ni" ac "Ein" yn golygu Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. Mae "Chi" ac "Eich" yn golygu'r unigolyn, y busnes neu'r cwmni y mae'r Archeb Brynu wedi ei chyfeirio ato, a chyflogeion, isgcontractwyr neu asiantau'r unigolyn, y busnes neu'r cwmni dan sylw. Mae "Nwyddau" yn golygu'r deunyddiau, yr eitemau, y gwaith a'r gwasanaethau a ddisgrifir yn y Contract. Mae "Gwasanaethau" yn golygu'r gwasanaethau, gan gynnwys yr elfennau sydd i'w cyflawni, fel y nodir yn y contract. Ystyr "Pecyn" yw unrhyw fath o becyn gan gynnwys bagiau, casys, carbois, silindrau, drymiau, paledi, wagenni tanc a chynwysyddion eraill. Mae "Swyddog Awdurdodedig" yn golygu Ein Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau sydd wedi ei awdurdodi, naill ai'n gyffredinol neu'n benodol, gennym Ni i lofnodi Ein Harcheb Brynu, a gellir cael cadarnhad o hynny gan y Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau. Mae "Awdurdodedig" yn golygu wedi'i lofnodi gan Ein Swyddog Awdurdodedig. Ystyr "Archeb Brynu" yw Ein Harcheb Brynu Awdurdodedig, sydd â'r Amodau Prynu Cyffredinol hyn ar ei chefn neu wedi eu hatodi iddi, neu y cyfeirir at yr Amodau Prynu Cyffredinol hyn ar ei hwyneb. Mae "Diwygiad i'r Archeb" yn golygu ein proses o Ddiwygio Archeb Awdurdodedig neu gyfres o Ddiwygiadau, gyda phob Diwygiad yn cael blaenoriaeth dros unrhyw Ddiwygiad a wnaed yn gynharach. Mae i "Contract" yr ystyr a roddir iddo yn Amod 2 isod. Mae i "Pris" yr un ystyr a roddir iddo yn Amod 3 isod. Bydd "Deddf Gwerthu Nwyddau 1979" yn golygu Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau 1994. Bydd "Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982" yn golygu Deddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwerthu a Chyflenwi Nwyddau 1994. Ystyr "TAW" yw treth ar werth o dan Ddeddf Treth ar Werth 1994 neu unrhyw dreth werthu neu dreth ariannol debyg arall sy'n berthnasol i werthu'r Nwyddau.

2. Y Contract

Rydych Chi yn cytuno i werthu ac rydym Ni yn cytuno i brynu'r Nwyddau yn unol â'r Contract. Bydd y Contract yn cynnwys (yn nhrefn blaenoriaeth): unrhyw Ddiwygiadau i'r Archeb, yr Archeb Brynu, yr Amodau Prynu Cyffredinol hyn ac unrhyw ddogfen arall (neu ran o ddogfen) y cyfeirir ati yn yr Archeb Brynu. Ni fydd y Contract yn cynnwys unrhyw un o'ch amodau gwerthu Chi, oni bai y cyfeirir atynt mewn unrhyw ddogfen. Fodd bynnag, os yw'r Contract hwn yn cael ei ddal gan lys ag awdurdodaeth gymwys i gynnwys Eich telerau ac amodau gwerthu Chi, yna os bydd unrhyw wrthdaro neu wrthdaro ymddangosiadol, bydd yr Amodau Prynu Cyffredinol hyn bob amser yn drech na'ch telerau ac amodau gwerthu Chi. Cymerir bod Cyflenwi Nwyddau neu Wasanaethau mewn ymateb i Orchymyn Prynu neu Ddiwygiad i Archeb yn awgrymu eich bod Chi wedi derbyn telerau ac amodau'r Contract hwn.

3. Pris

Byddwch yn gwerthu'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau i Ni am y Pris cadarn a sefydlog a nodir yn y Contract. Os na nodir Pris yn y Contract yna bydd y Pris yn bris teg, gan ystyried amodau cyfredol y farchnad. Bydd y Pris yn cynnwys storio, pecynnu, yswiriant, dosbarthu, gosod a chomisiynu (fel y bo'n berthnasol) ond ni fydd yn cynnwys TAW. Chewch Chi ddim codi'r Pris ar ôl i'r archeb gael ei rhoi oni bai ein bod Ni yn Diwygio'r Archeb yn unol ag Amod 5.

4. Taliad

- (a) Byddwch Chi yn ein hanfonebu Ni am y Nwyddau neu'r Gwasanaethau wrth i'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau gael eu danfon neu ar ôl hynny, os yw hynny'n hwyrach, ar ôl i Ni dderbyn y Nwyddau neu'r Gwasanaethau.
- (b) Byddwn Ni yn talu pob anfoneb ddilys a diamheuol o fewn 30 diwrnod i'w derbyn.
- (c) Heb ragfarn i unrhyw rwymedi arall sydd ar gael i Ni, bydd gennym Ni hawl i osod yn erbyn o dan y Contract unrhyw atebolrwydd sydd gennym Ni neu unrhyw symiau sy'n ddyledus gennym Ni i Chi yn unol ag Amod 33.
- (d) Nid yw amser y taliad yn hanfodol. Pan na fydd symiau sy'n ddyledus o dan y Contract yn cael eu talu'n llawn erbyn y dyddiad dyledus, i wneud iawn i Chi am bob colled sy'n deillio o'n tor-amod Ni, byddwn Ni'n talu llog ar y swm sy'n hwyr (cyn ac ar ôl y dyfarniad) yn ddyddiol nes caiff ei dalu'n llawn, ar gyfradd o 4% y flwyddyn yn uwch na'r Gyfradd Banc Swyddogol o bryd i'w gilydd gan Fanc Lloegr. Rydych Chi'n cydnabod bod hyn yn rhwymedi sylweddol at ddibenion Deddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998.
- (e) Chi fydd yn codi TAW ac fe'i telir gennym Ni ar y gyfradd berthnasol adeg cyflwyno'r anfoneb.

5. Amrywiadau

Bydd gennym yr hawl, cyn dosbarthu, i anfon Diwygiad i'r Archeb atoch yn ychwanegu at y Nwyddau neu'r Gwasanaethau neu'n eu dileu neu eu haddasu. Os bydd y Diwygiad i'r Archeb yn achosi newid i'r Pris neu'r dyddiad cyflawni, yna rhaid i Chi roi'r gorau i gyflawni'r Contract am y tro a rhoi gwybod i Ni yn ddi-oed, gan gyfrifo'r Pris newydd a'r dyddiad cyflawni ar yr un lefel o gost a phroffidioldeb â'r Pris gwreiddiol. Rhaid i chi ganiatáu o leiaf 10 diwrnod gwaith i Ni ystyried unrhyw Bris a dyddiad cyflawni newydd. Bydd y Diwygiad i'r Archeb yn dod i rym pan, a dim ond os, y bydd Ein Swyddog Awdurdodedig yn derbyn y Pris a'r dyddiad cyflawni newydd yn ysgrifenedig o fewn yr amser a nodir gennych Chi. Os na fydd ein Swyddog Awdurdodedig yn cadarnhau'r Diwygiad i'r Archeb o fewn yr amser rydych Chi'n ei nodi, bydd y gwaith o gyflawni'r Contract yn ailddechrau ar unwaith fel pe na bai'r cyfryw Ddiwygiad wedi ei roi (ond gallwn Ni barhau i arfer Ein hawl i ganslo yn unol ag Amod 6).

6. Ein Hawl i Ganslo

- (a) Bydd gennym Ni'r hawl i ganslo'r Contract hwn, yr Archeb Brynu ac unrhyw

Ddiwygiad i'r Archeb ar gyfer y Nwyddau neu'r Gwasanaethau neu ar gyfer unrhyw ran o'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau nad ydym wedi eu cael eto.

- (i) Mewn perthynas ag unrhyw Archeb Brynu neu Ddiwygiad i Archeb a genslir neu a genslir yn rhannol o dan Amod 6 (a), ar ôl derbyn tystiolaeth ddilys sydd wedi'i chyhoeddi a'i dogfennu'n briodol, y mae'n rhaid i Ni ei derbyn ddim hwyrach na thri mis ar ôl y canslo, byddwn Ni'n talu am y rhan honno o'r Pris sy'n ymwneud â'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau rydym ni wedi eu cael adeg y canslo; ac
- (b) I'r graddau mwyaf posibl, byddwch Chi'n lliniaru'r holl gostau sy'n ymwneud â'r Archeb Brynu neu'r Diwygiad i'r Archeb ar ôl derbyn y canslo o dan Amod 6.

7. Ansawdd a Disgrifiad

- (a) Bydd y Nwyddau:
 - (i) yn cydymffurfio ym mhob agwedd â darpariaethau'r Contract;
 - (ii) yn gallu cyflawni'r holl safonau perfformiad a nodir yn y Contract;
 - (iii) yn addas i unrhyw bwrpas a gyflëir i Chi'n benodol neu drwy oblygiad, ac yn y cyswllt hwn rydym ni'n dibynnu ar Eich sgiliau a'ch barn Chi;
 - (iv) yn newydd (oni nodir fel arall ar yr Archeb Brynu);
 - (v) yn cynnwys deunyddiau da, gan ddefnyddio sgiliau crefft, crefftwaith neu arbenigedd fel y bo'n berthnasol;
 - (vi) yn cyfateb i'w disgrifiad neu unrhyw sampl, patrwm, lluniad, cynllun a manyleb y cyfeirir atynt yn y Contract, a bod o safon foddhaol;
 - (vii) yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfau, deddfwriaeth, statudau, codau a chanllawiau rheoleiddio perthnasol.
- (b) Oni bai fod hynny'n ofynnol yn benodol o dan y Contract, ni fydd unrhyw gynnwys asbestos yn y Nwyddau.

8. Gweithio yn Ein Hadeiladau

Os yw'r Contract yn cynnwys unrhyw waith neu wasanaeth y byddwch Chi'n eu cyflawni yn Ein hadeiladau, bydd yr amodau a ganlyn yn berthnasol:

- (a) byddwch Chi a'ch cyflogeion Chi, Eich isgontractwyr a'u cyflogeion ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â Chi yn cadw at bob agwedd ar y rhwymedigaethau a osodir arnoch gan y deddfwriaeth diogelwch gyfredol;
- (b) byddwch Chi'n sicrhau eich bod Chi a'ch cyflogeion Chi, Eich is-gontractwyr a'u cyflogeion ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â Chi yn cydymffurfio ag unrhyw reoliadau y gallwn Ni roi gwybod i Chi amdanynt yn ysgrifenedig o bryd i'w gilydd, gan gynnwys unrhyw un o'n polisïau a'n gweithdrefnau Ni y mae'n rhaid i Chi, Eich is-gontractwyr a'u cyflogeion ac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â Chi wneud pob ymdrech resymol i gydymffurfio â nhw.

9. Cynnydd ac Arolygu

- (a) Ar eich cost Chi, byddwch yn darparu unrhyw raglen weithgynhyrchu a chyflawni y byddwn ni'n gofyn amdani'n rhesymol. Byddwch Chi'n rhoi gwybod i Ni'n ddi-oed yn ysgrifenedig os bydd eich cynnydd Chi'n disgyn ar ei hôl hi o ran unrhyw

un o'r rhaglenni hyn neu fod perygl i hynny ddigwydd.

- (b) Bydd gennym Ni'r hawl i wirio cynnydd Eich gwaith neu waith is-gontractwyr ar bob adeg resymol, ac i archwilio ac i wrthod Nwyddau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Contract. Bydd eich is-gontractau yn cadw'r hawl honno i Ni.
- (c) Ni fydd unrhyw archwiliad na chymeradwyaeth yn eich rhyddhau Chi o'ch rhwymedigaethau o dan y Contract hwn.

10. Pecynnau

Oni nodir yn wahanol yn y Contract, ni fydd modd dychwelyd unrhyw Becyn. Os yw'r Contract yn datgan bod modd dychwelyd Pecyn, rhaid i Chi roi cyfarwyddiadau llawn i ni cyn yr amser danfon. Rhaid marcio'r Pecyn yn glir i ddangos i bwy mae'n perthyn. Rhaid i Chi dalu cost pob cludiant a gwaith trin sy'n gysylltiedig â dychwelyd Pecyn. Ni fyddwn yn atebol am unrhyw Becyn a gollir neu a ddifrodir yn ystod y broses gludo.

11. Diogelwch

Byddwch yn cadw at holl ofynion cyfreithiol y Deyrnas Unedig, yr Undeb Ewropeaidd a chytundebau rhyngwladol perthnasol mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, ac yn enwedig gyda golwg ar nodi Nwyddau peryglus, darparu taflenni data ar gyfer deunyddiau peryglus a phob darpariaeth sy'n ymwneud â bwyd.

12. Danfon

- (a) Rhaid i'r Nwyddau gael eu pacio, eu diogelu a'u dosbarthu'n briodol ar eich cost Chi er mwyn cyrraedd mewn cyflwr da ar yr amser neu'r amseroedd a'r lle neu'r lleoedd a nodir yn y Contract.
- (b) Tybir y bydd y Nwyddau wedi'u danfon dim ond pan fydd y Nwyddau wedi cyrraedd y man neu'r mannau a nodir yn y Contract, a hynny gennych Chi neu Eich cludwyr enwebedig (yn ôl y digwydd).
- (c) Ni ystyrir bod y Nwyddau wedi'u danfon fesul tipyn oni chytunir fel arall yn ysgrifenedig gennym Ni. Os byddwch Chi neu Eich cludwr yn dosbarthu Nwyddau ar yr adeg anghywir neu i'r lle anghywir, yna gallwn Ni ddidynnu o'r Pris unrhyw gost storio neu gludo sy'n deillio o hynny.

13. Cyrraedd yn Hwyr

Os na fydd y Nwyddau neu unrhyw ran ohonynt yn cael eu danfon erbyn yr amser neu'r amseroedd a nodir yn y Contract, yna gallwn drwy hysbysiad ysgrifenedig ganslo unrhyw falans nas danfonwyd o'r Nwyddau. Cawn hefyd ddychwelyd am gredyd llawn, ac ar eich cost Chi, unrhyw Nwyddau nad oes modd eu defnyddio, yn ein barn Ni, oherwydd y canslo hwn. Yn achos gwasanaethau, efallai y byddwn yn gofyn i'r gwaith gael ei wneud drwy ddulliau eraill, a bydd costau ychwanegol rhesymol yn cael eu hysgwyddo gennych Chi. Ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw hawl arall sydd gennym Ni.

14. Eiddo a Risg

- (a) Byddwch yn ysgwyddo pob risg o golled neu ddifrod i'r Nwyddau nes y'u danfonir, a byddwch yn eu hyswrio yn unol â hynny. Bydd risg mewn perthynas ag unrhyw un o'r Nwyddau yn cael ei throsglwyddo i Ni ar y cynharaf o'r canlynol:
 - (i) Danfon y Nwyddau i Ni fel y nodir yn Amod 12; neu

- (ii) Derbyn y Nwyddau gennym Ni yn unol â'n cyfarwyddiadau Ni.
- (b) Trosglwyddir y Nwyddau i Ni:
 - (i) pan fydd y Nwyddau wedi cael eu danfon, ond heb ragfarn i'n hawl i wrthod o dan y Contract hwn, ac
 - (ii) os byddwn Ni yn gwneud unrhyw daliad ymlaen llaw neu daliad llawn am y Nwyddau, ar yr adeg y gwneir y taliad hwnnw – bryd hynny, rhaid i Chi farcio'r Nwyddau fel Ein heiddo Ni cyn gynted â phosibl.
- (c) Ni fydd pasio teitl yn rhagfarnu unrhyw rai o'n hawliau a'n rhwymedïau eraill, gan gynnwys yr hawl i wrthod,
- (d) Ni fydd gennych Chi, Eich cyflogeion, is-contractwyr nac unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â Chi hawlrwym ar, hawl atal dros dro wrth gludo, na hawliau eraill mewn neu i unrhyw Nwyddau sydd wedi'u breinio ynom Ni neu unrhyw fanylebau neu ddeunyddiau gennym Ni, a byddwch Chi'n sicrhau bod trydydd partïon perthnasol yn derbyn eithrio hawlrwym a hawliau o'r fath.

15. Derbyn

- (a) Bydd gennym Ni hawl i wrthod unrhyw Nwyddau nad ydynt yn Cydymffurfio'n llawn â'r Contract. Ni fydd derbyn Nwyddau diffygiol, hwyr neu anghyflawn neu unrhyw daliad a wneir mewn perthynas â hynny, yn golygu ein bod yn ildio unrhyw un o'n hawliau neu'n rhwymedïau Ni, gan gynnwys yr hawl i wrthod.
- (b) Byddwn yn rhoi cyfle rhesymol i Chi newid y Nwyddau am Nwyddau newydd sy'n cydymffurfio â'r Contract hwn. Ar ôl hynny, bydd gennym Ni hawl i ganslo'r Archeb Brynu a phrynu'r nwyddau cyfatebol tebycaf o rywle arall.
- (c) Mewn achos o ganslo o dan yr amod hwn, byddwch Chi'n ad-dalu'n ddi-oed unrhyw arian a dalwyd o dan y Contract heb unrhyw elfen o gadw na gwrthbwysu o gwbl. Ni fydd canslo'r Archeb Brynu o dan yr amod hwn yn effeithio ar unrhyw hawliau eraill sydd gennym. Rhaid i Chi gasglu'r holl Nwyddau a wrthodwyd o fewn amser rhesymol i'r adeg y'u gwrthodwyd neu byddwn Ni'n eu dychwelyd i Chi ar eich risg a'ch cost Chi.

16. Eich Gwarant

- (a) Cytunir yn benodol rhyngom:
- (b) Byddwch Chi'n gwneud iawn yn ddi-oed am unrhyw ddiffyg yn y Nwyddau y byddwn Ni'n ei ganfod o dan ddefnydd priodol yn ystod y 12 mis cyntaf o ddefnydd gwirioneddol neu 18 mis o'r dyddiad derbyn gennym Ni, pa bynnag gyfnod a ddaw i ben gyntaf. Gall diffygion o'r fath godi o'ch dyluniad diffygiol Chi, Eich cyfarwyddiadau gwallus ynghylch defnydd, neu ddeunyddiau annigonol neu ddiffygiol, neu sgiliau crefft, artisan neu arbenigedd gwael neu unrhyw achos arall o dorri Eich rhwymedigaethau, boed hynny yn y Contract hwn neu yn ôl y gyfraith.
- (c) Bydd y gwarantïad uchod yn berthnasol i atgyweiriadau neu eitemau newydd yn lle rhai eraill dim ond am gyfnod o 12 mis ar ôl i Ni dderbyn.
- (d) Byddwch yn sicrhau bod darnau sbâr cydnaws ar gael i hwyluso gwaith atgyweirio (lle bo hynny'n berthnasol) am gyfnod o 10 mlynedd o leiaf o'r dyddiad y cawn y Nwyddau.

17. Indemniad ac Yswiriant

- (a) Byddwch Chi'n ein hindemnio Ni yn erbyn yr holl golledion, gweithredoedd, costau, hawliadau, galwadau, treuliau ac atebolrwyddau o unrhyw fath (os o gwbl) y gallwn Ni eu hwynebu naill ai o dan gyfraith gyffredin neu drwy statud mewn perthynas ag anaf personol i unrhyw un neu farwolaeth unrhyw un neu mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod i eiddo (ac eithrio o ganlyniad i unrhyw ddiffyg neu esgeulustod gennym Ni ein hunain neu unrhyw un rydym Ni'n gyfrifol amdano) a fydd wedi digwydd mewn cysylltiad ag unrhyw waith rydych Chi wedi ei gyflawni o dan y Contract hwn neu a briodolir i ryw ddiffyg yn y Nwyddau.
- (b) Rhoddir yr Archeb Brynu hon ar yr amod (heb ragfarn i gyffredinolrwydd Amod 17(a) y byddwch Chi'n ein hindemnio Ni yn erbyn yr holl golledion, gweithredoedd, costau, hawliadau, galwadau, treuliau ac atebolrwyddau o unrhyw fath (os o gwbl) y gallwn Ni eu hwynebu naill ai o dan gyfraith gyffredin neu drwy statud (ac eithrio o ganlyniad i unrhyw ddiffyg neu esgeulustod gennym Ni ein hunain neu unrhyw un rydym Ni'n gyfrifol amdano) yng nghyswllt anaf personol neu farwolaeth unrhyw un o'n cyflogeion, ein hasiantau, ein hisgontractwyr neu'n cynrychiolwyr eraill Ni neu Chi tra byddant ar ein safleoedd, pa un a yw'r cyfryw unigolion (ar adeg pan achosir anafiadau personol neu farwolaethau o'r fath) yn gweithredu yn unol â'u cyflogaeth.
- (c) Byddwch yn ein hindemnio Ni yn erbyn unrhyw golledion, costau, treuliau ac atebolrwyddau a achosir i Ni, a phob un ohonynt, boed hynny'n uniongyrchol neu o ganlyniad i gam, hawliad neu ofyniad gan unrhyw drydydd parti oherwydd eich bod Chi wedi torri'r amodau hyn neu delerau neu rwymedigaethau a awgrymir gan Ddeddf Gwerthu Nwyddau 1979, gan Ddeddf Cyflenwi Nwyddau a Gwasanaethau 1982 neu gan unrhyw statud arall neu ddarpariaeth statudol sy'n berthnasol i'r Contract neu'r Nwyddau neu'r gwaith a gyflawnir drwy hynny. Ni fydd yr indemniad hwn yn cael ei leihau na'i hepgor drwy arfer Ein hawliau dan Amod 16.
- (d) Bydd gennych chi yswiriant boddhaol gydag yswiriwr dibynadwy i gyflawni Eich rhwymedigaethau yswiriant drwy gydol y Contract hwn, gan gynnwys yswiriant atebolrwydd cyhoeddus o £2M o leiaf (dwylun o bunnoedd Sterling). Byddwch yn gwneud yn siŵr bod gennych yswiriant yn erbyn yr holl risgiau hynny sy'n deillio o'ch indemniad Chi yn Amod 17(c). Bydd tystiolaeth foddhaol o'r yswiriant ac o dalu premiymau cyfredol yn cael ei dangos i Ni ar gais.

18. Adennill Symiau sy'n Ddyledus

Pryd bynnag y bydd symiau o arian yn cael eu hadennill neu'n daladwy gennych Chi o dan y Contract hwn, gellir eu tynnu o unrhyw swm sy'n ddyledus wedyn, neu a allai ddod yn ddyledus i Chi yn nes ymlaen o dan y Contract hwn neu o dan unrhyw gontract arall sydd gennych Chi gyda Ni.

19. Force Majeure

- (a) At ddiben y Cytundeb hwn, mae "Force Majeure" yn golygu unrhyw ddigwyddiad(au) neu amgylchiad(au) y tu hwnt i reolaeth resymol y naill barti neu'r llall sy'n rhwystro, yn atal, neu'n llesteirio'r gwaith o gyflawni'n briodol unrhyw rwymedigaethau sy'n berthnasol i'r parti hwnnw ac nad yw'r parti hwnnw, drwy arfer pob diwydrwydd rhesymol, yn gallu ei atal. Gallai hyn gynnwys

streiciau, cloi allan neu weithredu diwydiannol arall, cynnwrf sifil, terfysg, goresgyniad, ymosodiad terfysgol neu fygythiad o ymosodiad terfysgol, rhyfel (p'un ai a yw wedi'i ddatgan ai peidio) neu fygythiad neu alwad i baratoi ar gyfer rhyfel, tân, ffrwydrad, storm, llifogydd, daeargryn, ymsuddiad tir, epidemig, pandemig neu drychineb naturiol arall, dim modd defnyddio rheilffyrdd, llongau, awyrennau, trafnidiaeth fodurol neu ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus neu breifat eraill, dim modd defnyddio rhwydweithiau telathrebu cyhoeddus neu breifat neu ddeddfau, dyfarniadau, deddfwriaeth, rheoliadau neu gyfyngiadau unrhyw lywodraeth, ar yr amod nad yw prinder llafur, deunyddiau, offer neu gyflenwadau yn unig yn golygu Force Majeure.

- (b) Os bydd y naill barti neu'r llall yn cael ei rwystro, ei atal neu ei lesteirio rhag cyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn oherwydd Force Majeure, bydd yn rhoi rhybudd i'r parti arall yn ddi-oed yn nodi'r amgylchiadau sy'n berthnasol i Force Majeure a graddau hynny. Bydd rhwymedigaethau'r partïon yn cael eu hatal cyhyd ag y gall amgylchiadau Force Majeure barhau, ac ni fydd y naill barti na'r llall yn atebol i'r llall am dorri neu fethu â chyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn os na all wneud hynny o dan amgylchiadau Force Majeure. Bydd parti y mae Force Majeure yn effeithio arno yn gwneud pob ymdrech resymol i leihau effeithiau Force Majeure a bydd yn ailddechrau cyflawni ei rwymedigaethau cyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl ar ôl i amgylchiadau'r Force Majeure ddod i ben.
- (c) Os bydd Force Majeure yn atal y Brifysgol neu'r Cyflenwr rhag cyflawni unrhyw rai o ofynion y Cytundeb hwn am gyfnod o un diwrnod ar hugain (21 diwrnod), bydd gan y Brifysgol hawl, drwy rybudd ysgrifenedig, i'r Cyflenwr i derfynu'r Cytundeb hwn ar unwaith.

20. Nwyddau ar Fenthyg a Defnyddio Gwybodaeth

- (a) Bydd yr holl offer, deunyddiau, lluniadau, manylebau a chyfarpar a data eraill ("yr Eitemau") a fenthycir gennym Ni i Chi mewn cysylltiad â'r Contract yn aros bob amser yn eiddo i Ni ac yn cael eu hildio i Ni ar gais mewn cyflwr da a defnyddiadwy (caniateir traul arferol) ac yn cael eu defnyddio gennych Chi at ddibenion cwblhau'r Contract yn unig. Rydych Chi'n cytuno na fydd unrhyw gopi o unrhyw un o'r eitemau'n cael ei wneud heb ganiatâd ysgrifenedig ein Swyddog Awdurdodedig. Nes i Chi ddychwelyd yr holl eitemau i ni, byddant ar eich risg Chi ac wedi eu hyswrio gennych Chi ar eich cost eich hun yn erbyn y risg o golled, lladrad neu ddifrod. Chi fydd yn gwneud iawn am unrhyw golled neu ddifrod i erthyglau o'r fath ar eich cost Chi. Rhaid gwaredu'r holl sgrap sy'n deillio o gyflenwi eitemau o'r fath yn unol â'n disgresiwn Ni a rhaid talu'n brydlon yr holl elw o werthu hwnnw i Ni.
- (b) Bydd unrhyw wybodaeth sy'n deillio o'n heiddo Ni neu sy'n cael ei chyfleu fel arall i Chi mewn cysylltiad â'r Contract yn cael ei chadw'n gyfrinachol. Oni bai am ganiatâd ysgrifenedig Ein Swyddog Awdurdodedig, ni fydd yn cael ei chyhoeddi na'i datgelu i unrhyw drydydd parti, nac yn cael ei defnyddio gennych Chi ac eithrio er mwyn rhoi'r Contract ar waith.

21. Hawliau Eiddo Deallusol

- (a) At ddibenion Amod 21, ystyr Hawliau Eiddo Deallusol yw hawlfraint, patentau, gwybodaeth ymarferol arbennig, cyfrinachau masnach, nodau masnach, enwau masnachu, hawliau dylunio, hawliau dros ddiwyg, hawliau mewn meddalwedd, hawliau mewn ewyllys da, hawliau mewn Gwybodaeth Gyfrinachol, hawliau i ddyfeisiadau, hawliau i erlyn am beri coel, enwau parth a phob hawl arall sy'n ymwneud ag eiddo deallusol a hawliau tebyg ac, ym mhob achos:
 - (i) p'un ai a yw wedi'i gofrestru ai peidio;
 - (ii) yn cynnwys unrhyw geisiadau i ddiogelu neu gofrestru hawliau o'r fath;
 - (iii) yn cynnwys pob achos o adnewyddu ac ymestyn hawliau neu geisiadau o'r fath;
 - (iv) a yw wedi'i freinio, yn dibynnu ar rywbeth neu yn y dyfodol;
 - (v) y mae gan y parti perthnasol hawl iddo neu y gallai fod ganddo hawl iddo: ac
 - (vi) ym mha ran bynnag o'r byd y mae'n bodoli.

Os yw'r Contract yn cynnwys gwaith dylunio a/neu ddatblygu:

- (b) Bydd yr holl Hawliau Eiddo Deallusol sy'n ymwneud â gwaith sy'n codi yn sgil y Contract hwn, neu sy'n deillio ohono, yn eiddo i Ni. Ni yn unig fydd â'r hawl i benderfynu a fydd unrhyw ragamcanion ar gyfer Hawliau Eiddo Deallusol yn cael eu ceisio.
- (c) Bydd yr holl Hawliau Eiddo Deallusol mewn Nwyddau a wneir i'n dyluniadau neu ein cyfarwyddiadau yn eiddo i Ni bob amser a dim ond Chi, Eich cyflogeion, Eich is-gontractwyr neu unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â Chi at yr unig ddiben o gyflawni Eich rhwymedigaethau o dan y Contract hwn y cewch ddefnyddio'r cyfryw ddyluniadau neu gyfarwyddiadau.
- (d) Byddwch yn rhoi gwybod i Ni yn ddi-oed am bob canlyniad o'r fath a byddwch yn neilltuo (neu'n caffael yr aseiniad) i Ni yn llwyr, gyda gwarant teitl llawn, pob hawl, teitl a buddiant mewn unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol o'r fath, a byddwch Chi'n gwneud popeth o'r fath ac yn llofnodi'r holl ddogfennau sy'n angenrheidiol yn Ein barn Ni i freinio pob Hawl Eiddo Deallusol o'r fath ynom Ni ac i'n galluogi Ni i amddiffyn a gorfodi Hawliau Eiddo Deallusol o'r fath.
- (e) Byddwch Chi'n sicrhau bod yr holl wybodaeth dechnegol (gan gynnwys rhaglenni cyfrifiadurol a gwybodaeth raglennu) sy'n codi o'r Contract hwn neu sy'n deillio ohono yn cael ei chadw'n gwbl gyfrinachol ac eithrio unrhyw gyfryw wybodaeth sy'n dod yn hysbys i'r cyhoedd ar wahân i achos o dorri'r Contract hwn.

22. Torri Hawliau Eiddo Deallusol

Ac eithrio'r Nwyddau a wneir yn unol â'n dyluniad Ni neu ein cyfarwyddiadau Ni, rydych Chi'n gwarantu na fydd y Nwyddau na'n defnydd Ni ohonynt yn torri unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol nac unrhyw hawl warchodedig arall sy'n eiddo i drydydd parti, ac yn ymrwymo i'n hindemnio Ni yn erbyn yr holl weithredoedd, hawliadau, galwadau, costau, ffioedd a threuliau sy'n deillio o unrhyw dor-cyfraith neu dresmasu honedig ar unrhyw Hawliau Eiddo Deallusol trydydd parti.

23. Peidio â Chadw at Amodau

Os byddwch Chi'n torri amodau neu'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract hwn, gallwn roi rhybudd ysgrifenedig i Chi o dorri neu beidio ag ufuddhau i amodau o'r fath, a byddwch Chi'n cael 28 diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad i gywiro'r tor-amod neu'r methiant i gydymffurfio.

Os na fyddwch yn unioni'r tor-amod neu'r achos o fethu â chadw at yr amodau, yna bydd gennym hawl i roi rhybudd ysgrifenedig i Chi yn terfynu'r Contract ar unwaith.

24. Eich Ansolfedd

Os byddwch Chi'n mynd yn fethdalwr neu'n wynebu ansolfedd neu (a chithau'n gwmni) yn gwneud trefniant gyda'ch credydwyr neu'n penodi derbynnydd gweinyddol neu weinyddwr neu'n dechrau camau dirwyn i ben (ac eithrio at ddibenion cyfuno neu ailadeiladu) gallwn Ni, heb ddisodli na lleihau unrhyw un arall o'n hawlau, derfynu'r Contract ar unwaith drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Chi neu unrhyw un y gallai'r Contract fod wedi ei freinio ynddo.

25. Newid Rheolaeth

Gall y naill barti neu'r llall derfynu'r Contract ar unrhyw adeg drwy roi o leiaf bedair wythnos o rybudd ysgrifenedig i'r parti arall os bydd y parti arall yn newid rheolaeth. At ddibenion amod 25, bydd i'r gair 'rheolaeth' yr ystyr a roddir iddo o dan Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010, adran 1124.

26. Terfynu ar Rybudd

Gellir terfynu'r Contract:

- (a) Os byddwn Ni'n rhoi o leiaf mis o rybudd ysgrifenedig i Chi; neu
- (b) Os byddwch Chi'n rhoi o leiaf 3 mis o rybudd ysgrifenedig i Ni.

Ni fydd hysbysiad o'r fath yn dod i ben cyn i flwyddyn fynd heibio ar ôl dyddiad y Cytundeb hwn.

27. Aseinio ac Is-osod

Ni fydd y Contract yn cael ei aseinio gennych Chi nac yn cael ei is-osod yn ei gyfanrwydd. Ni fyddwch yn is-osod unrhyw ran o'r Contract heb Ein caniatâd ysgrifenedig, ond fyddwn Ni ddim yn gwrthod caniatâd o'r fath yn afresymol. Ni fydd y cyfyngiad yn yr amod hwn yn berthnasol i is-gontractau ar gyfer deunyddiau am fân fanylion nac am unrhyw ran mae'r gwneuthurwyr wedi ei enwi yn y Contract. Byddwch Chi'n gyfrifol am yr holl waith a wneir a'r Nwyddau a gyflenwir gan bob is-gontractwr.

28. Atal llwgrwobrwyo

- (a) At ddibenion Amod 28, dehonglir yr ymadroddion '**gweithdrefnau digonol**' a '**cysylltiedig â**' yn unol â Deddf Llwgrwobrwyo 2010 a deddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir o dan y Ddeddf honno.
- (b) Byddwch Chi a Ni yn cydymffurfio â chyfreithiau llwgrwobrwyo perthnasol. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod gennych Chi a Ni weithdrefnau priodol ar waith i atal llwgrwobrwyo, ac y gwneir pob ymdrech resymol i sicrhau bod unrhyw un o'ch cyflogeion Chi neu Ni, is-gontractwyr neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â Chi neu Ni sy'n ymwneud â chyflawni'r Contract hwn yn cydymffurfio felly.

- (c) Heb gyfyngiad i Amod 28(b), ni fyddwch Chi na Ni yn gwneud nac yn derbyn unrhyw llwgrwobr (fel y'i diffinnir yn Neddf Llwgrwobrwyo 2010) na thaliad amhriodol arall nac yn caniatáu i unrhyw un o'r fath gael ei wneud na'i dderbyn ar ei ran, yn y Deyrnas Unedig nac yn unrhyw le arall, gan weithredu a chynnal gweithdrefnau digonol i sicrhau nad yw llwgrwobrwyon neu daliadau o'r fath yn cael eu gwneud na'u derbyn yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol ar ei ran.
- (d) Byddwch Chi yn rhoi gwybod i Ni ar unwaith cyn gynted ag y byddwch Chi yn dod yn ymwybodol o dor-amod neu dor-amod posibl gennych Chi neu unrhyw un o'r gofynion yn Amod 28.
- (e) Bydd unrhyw achos o dorri Amod 28 gennych Chi yn cael ei ystyried yn achos gwirioneddol o dorri'r Contract nad oes modd ei adfer a bydd yn rhoi'r hawl i Ni derfynu'r Contract ar unwaith drwy rybudd.

29. Gwrthgaethwasiaeth

Rydych Chi'n ymrwymo, yn gwarantu ac yn mynegi nad ydych Chi nac unrhyw un o'ch cyflogaion na'ch is-gontractwyr nac unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â Chi:

- (a) wedi troseddu o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ("**Trosedd MSA**"); neu
- (b) wedi cael gwybod am destun ymchwiliad yn ymwneud â Throsedd MSA honedig neu erlyniad o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015; neu
- (c) wedi bod yn ymwybodol neu yn ymwybodol o unrhyw amgylchiadau yn Eich cadwyn gyflenwi a allai arwain at ymchwiliad yn ymwneud â Throsedd MSA honedig neu erlyniad o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015;
 - (i) Byddwch yn cydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a'r Polisi Caethwasiaeth Fodern;
 - (ii) Rydych chi wedi rhoi gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy ar waith i sicrhau y cydymffurfir â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 a'r Polisi Caethwasiaeth Fodern yn Eich busnes a'ch cadwyn gyflenwi, a rhai Eich cyflogaion, Eich is-gontractwyr neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â Chi a fydd ar gael i Ni ar gais ar unrhyw adeg yn ystod y Contract;
 - (iii) Byddwch yn rhoi gwybod i Ni ar unwaith yn ysgrifenedig os byddwch Chi'n dod yn ymwybodol neu'n cael rheswm dros gredu eich bod Chi, neu unrhyw un o'ch cyflogaion, Eich is-gontractwyr neu unrhyw un arall sy'n gysylltiedig â Chi wedi torri neu o bosibl wedi torri unrhyw un o'ch rhwymedigaethau o dan Amod 29(a). Dylai rhybudd o'r fath nodi manylion llawn yr amgylchiadau sy'n ymwneud â thorri eich rhwymedigaethau Chi neu'r posibilrwydd eu bod wedi eu torri.
 - (iv) Bydd unrhyw achos o dorri Amod 29(a) gennych Chi yn cael ei ystyried yn achos gwirioneddol o dorri'r Contract nad oes modd ei adfer a bydd yn rhoi'r hawl i Ni derfynu'r Contract ar unwaith.

30. Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Byddwch Chi'n gwneud y canlynol (a byddwch yn sicrhau bod Eich Personél yn gwneud y canlynol hefyd):

- (a) cyflawni Eich rhwymedigaethau o dan y Contract hwn (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r Nwyddau) yn unol â'r canlynol:

- (i) pob cyfraith berthnasol ym maes cydraddoldeb (boed mewn perthynas â hil, rhyw, ailbennu rhywedd, oedran, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd, mamolaeth neu fel arall);
- (ii) Ein polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth fel y'i darperir i Chi o bryd i'w gilydd;
- (iii) unrhyw ofynion a chyfarwyddiadau eraill y gallwn Ni eu gosod yn rhesymol mewn cysylltiad ag unrhyw rwymedigaethau cydraddoldeb a osodir arnom Ni ar unrhyw adeg o dan gyfraith cydraddoldeb berthnasol;
- (b) cymryd pob cam angenrheidiol, a rhoi gwybod i Ni am y camau a gymerwyd, i atal gwahaniaethu anghyfreithlon a ddynodwyd felly gan unrhyw lys neu dribiwnlys, neu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu (unrhyw gorff olynol); a
- (c) chydymffurfio bob amser â darpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998 wrth gyflawni'r Contract hwn. Byddwch Chi hefyd yn cyflawni, neu'n ymatal rhag cyflawni, gweithredoedd o'r fath er mwyn ein galluogi Ni i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

31. Diogelu Data

- (a) Byddwn Ni a Chi yn cydymffurfio â holl ddarpariaethau perthnasol Deddf Diogelu Data 2018 ac unrhyw reoliadau a deddfiadau dilynol mewn perthynas â data personol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ((UE) 2016/679) (GDPR y DU), Deddf Diogelu Data 2018 (a rheoliadau a wneir oddi tani) a heb gyfyngiad i hyn, byddwn Ni a Chi yn sicrhau bod eich cyflogeion Chi a Ni, is-gontractwyr ac unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â Chi neu Ni yn rhwym wrth rwymedigaethau cyfrinachedd a pheidio â defnyddio priodol mewn perthynas â data personol, ac yn rhoi gwybod i Chi a Ni am unrhyw ddatgeliadau neu ddefnydd o ddata personol anghyfreithlon neu anawdurdodedig y byddwch Chi a Ni yn ymwybodol ohono.

- (b) Os bydd data personol yn cael ei brosesu o dan y Contract hwn, rydym Ni a Chi yn cydnabod mai Ni yw'r Rheolydd a Chi yw'r Prosesydd at ddibenion y Ddeddfwriaeth Diogelu Data. Cyfeiriwch at **"Gytundeb Prosesu Data"** Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, sy'n nodi Eich rhwymedigaethau Chi a'n rhwymedigaethau Ni mewn perthynas â phrosesu data personol er mwyn sicrhau y cydymffurfir â Deddfwriaeth Diogelu Data, yn ogystal â chwmpas, natur a phwmpas y prosesu gennych Chi, hyd y prosesu a'r mathau o Ddata Personol a chategorïau'r Gwrthrychau Data.

32. Ildio Hawl

Ni fydd methiant ar unrhyw adeg i orfodi unrhyw ddarpariaeth yn y Contract yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar yr hawl yn ddiweddarach i fynnu bod y Contract yn cael ei gyflawni'n llwyr; ac ni fydd ildio hawl yn sgil torri unrhyw ddarpariaeth yn cael ei ystyried yn ildio hawl ynghylch unrhyw doriad dilynol yn y ddarpariaeth nac yn golygu bod y ddarpariaeth ei hun yn cael ei hepgor.

33. Taliadau diswyddo

- (a) Os bydd unrhyw un o ddarpariaethau'r Contract (neu ran o unrhyw ddarpariaeth) yn anghyfreithlon, yn annilys neu'n anorfodadwy, neu os bydd hynny'n digwydd, ni fydd hyn yn effeithio ar gyfreithlondeb, dilysrwydd na gorfodadwyedd unrhyw ddarpariaeth arall yn y Contract.
- (b) Os yw unrhyw ddarpariaeth yn y Contract (neu ran o unrhyw ddarpariaeth) yn anghyfreithlon, yn annilys neu'n anorfodadwy, neu os bydd hynny'n digwydd, ond y byddai'n gyfreithlon, yn ddilys ac yn orfodadwy ar ôl dileu neu addasu unrhyw ran, bydd y ddarpariaeth neu'r rhan o'r ddarpariaeth dan sylw yn berthnasol, gyda chyn lleied â phosibl o ddileu neu addasu ag sy'n angenrheidiol i wneud y ddarpariaeth yn gyfreithlon, yn ddilys ac yn orfodadwy. Mewn achos o ddileu neu addasu o'r fath, byddwn Ni a Chi yn negodi'n ddiwyll er mwyn cytuno ar delerau darpariaeth amgen sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr.

34. Cyfrinachedd a chyhoeddiadau

At ddibenion Amod 34, ystyr Gwybodaeth Gyfrinachol yw unrhyw wybodaeth ar ba ffurf bynnag (boed yn ysgrifenedig, yn electronig neu'n ddigidol, ar lafar neu drwy archwilio dogfennau, systemau cyfrifiadurol neu safleoedd neu yn unol â thrafodaethau neu drwy unrhyw ddull arall) sy'n gyfrinachol ei natur, a ddynodwyd ar lafar neu'n ysgrifenedig gan y Parti sy'n Datgelu (y parti sy'n datgelu'r Wybodaeth Gyfrinachol i'r parti sy'n derbyn y wybodaeth honno) sy'n gyfrinachol, neu y gellid yn rhesymol ystyried ei bod yn fasnachol sensitif, a ddarparwyd gan y Parti sy'n Datgelu drwy unrhyw fodd i'r Parti sy'n Derbyn (y parti sy'n derbyn y cyfryw wybodaeth gan y parti sy'n datgelu'r cyfryw wybodaeth) mewn cysylltiad â'r Diben, neu wrth ragweld y Diben y mae'r Parti sy'n Datgelu neu ei gynrychiolydd yn ei ddarparu i'r Parti sy'n Derbyn yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, ar ddyddiad y Cytundeb hwn, neu ar ôl y dyddiad hwnnw:

- y ffaith bod trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch Diben a statws y trafodaethau hynny;
- bodolaeth a thelerau'r Cytundeb hwn;
- gwybodaeth yn ymwneud â:
- busnes, materion, cynlluniau busnes, cwsmeriaid, cleientiaid, cyflenwyr

y Parti sy'n Datgelu; a

- gweithrediadau, prosesau, fformiwlâu, dulliau, cynlluniau, strategaeth, gwybodaeth am gynnyrch, gwybodaeth ymarferol arbennig, gwybodaeth dechnegol, dyluniadau, hawliau dylunio, cyfrinachau masnach, cyfleoedd yn y farchnad, rhestrau cwsmeriaid, cysylltiadau masnachol, marchnata, deunyddiau gwerthu a materion busnes cyffredinol a meddalwedd y Parti sy'n Datgelu.
 - unrhyw wybodaeth, canfyddiadau, data neu ddadansoddiad sy'n deillio o Wybodaeth Gyfrinachol; ac
 - unrhyw wybodaeth arall y nodir ei bod o natur gyfrinachol neu berchnogol.
- (a) Byddwch yn cadw'r holl Wybodaeth Gyfrinachol sy'n eiddo i Ni yn gyfrinachol a dim ond y wybodaeth sy'n ofynnol i gyflawni'r Contract y byddwch yn ei defnyddio. Ni fydd darpariaethau'r cymal hwn yn berthnasol i'r canlynol:
- (i) unrhyw wybodaeth a oedd ar gael i'r cyhoedd ar ddyddiad y Contract;
 - (ii) unrhyw wybodaeth a ddaw ar gael i'r cyhoedd wedi hynny ac eithrio o ganlyniad i dorri'r Contract neu unrhyw gytundeb cysylltiedig;
 - (iii) unrhyw wybodaeth a ddatblygir yn annibynnol gennych Chi heb ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gennym Ni; neu
 - (iv) unrhyw ddatgeliad sy'n ofynnol dan y gyfraith neu awdurdod rheoleiddio neu fel arall dan ddarpariaethau'r Contract.
- (b) Bydd y cymal hwn yn parhau mewn grym am gyfnod o bum mlynedd o ddyddiad y Contract ac, os yw'n hirach, dair blynedd ar ôl terfynu'r Contract.
- (c) Ni fyddwch yn gwneud unrhyw gyhoeddiad cyhoeddus nac yn datgelu unrhyw wybodaeth am y Contract, ac eithrio i'r graddau sy'n ofynnol gan y gyfraith neu awdurdod rheoleiddio.

35. Hysbysiad

Rhaid i bob hysbysiad a chyfathrebiad y mae'n rhaid i Chi neu Ni ei anfon yn y Contract hwn gael ei wneud yn ysgrifenedig a'i anfon drwy bost dosbarth cyntaf. Os caiff ei anfon i Chi, caiff ei anfon i'ch swyddfa gofrestredig neu'ch prif swyddfa, ac os caiff ei anfon i Ni, caiff ei anfon at y Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, Maes y Castell, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3ER. Tybir y bydd yn cyrraedd y sawl y'i cyfeiriwyd ato y diwrnod busnes nesaf ar ôl y dyddiad postio.

36. Diwygio

Ni fydd addasu, newid nac ychwanegu at yr amodau hyn yn ein rhwymo Ni nac yn ffurfio rhan o'r Contract oni fydd ein Swyddog Awdurdodedig yn derbyn hynny'n ysgrifenedig.

37. Y Gyfraith

Bydd y Contract hwn yn ddarostyngedig i Gyfraith Cymru a Lloegr ac awdurdodaeth Llysoedd Cymru a Lloegr.

Llofnodwyd ar gyfer ac ar ran **COLEG BRENHINOL CERDD A DRAMA CYMRU**

Llofnod:

Enw (mewn priflythrennau):.....

Teitl swydd:.....

Dyddiad:.....

Llofnodwyd gan **[ENW'R CYFLENWR]**

Llofnod:

Enw (mewn priflythrennau):.....

Teitl swydd:.....

Dyddiad:.....